❖ Dydd Nadolig

Darlleniad: Eseia 52:7–10

Mae rhyfeddod y Nadolig yn yr adnodau yma sef dathlu gwaredigaeth.

Mae Jerwsalem wedi dioddef. Mae wedi bod dan warchae a dinistr. Mae digon o sôn wedi bod droeon a thro am newyddion drwg – ond yma mae un yn dod yn llawen ac yn neidio'n orfoleddus – mae dyfodiad Duw yn sicr o ddwyn llawenydd, rhyddid a heddwch.

Mae eraill yn ymuno yn y llawenydd. Mae gorfoledd a llawenydd a gobaith.

Darlleniad: Ioan 1:1–14

Mae plant yn aml yn cael trafferth mawr i roi cychwyn ar draethawd. Mae aml Famgu a Thadcu wedi bod mewn gwewyr heb wybod sut mae bod o gymorth. Faint ohonoch gafodd fflach o ysbrydoliaeth gan ddweud, 'Beth am i ti ddechrau yn y dechrau?'

Mae Ioan yn dechrau gydag atsain o Genesis – a chyn hynny. Mae'r hyn sydd yma gan Ioan wedi bod yn Nuw erioed. Nid bwriad newydd mohono – ond bwriad tragwyddol – ddoe, heddiw ac yfory. Roedd cyflawnder y Crist yn y Duwdod 'cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben'.

Mae'r hyn sy'n dynn yng ngafael y Creawdwr nawr wedi ei ddwyn i'n byd ond, mwy na hynny, mae Duw ei hun yn ein plith. Mae'n ddiwrnod newydd. Mae'n oes newydd. Mae'n fywyd newydd.

Nawr mae'n bosibl i bobl fod yn blant i Dduw – hynny yw o'r un anian ac yn rhannu'r tebygrwydd teuluol.